



Arweiniad Ymgeisio

Grantiau Treftadaeth
y Loteri Genedlaethol
£10,000–£250,000

Cynnwys



Gallwch glicio
i lywio'r
ddogfen yma

Cyflwyniad	3	Sut byddwn yn asesu eich cais	13
Rhestr wirio ar gyfer ceisiadau	5	Dogfennau ategol	15
Pwy all wneud cais?	6	Beth sy'n digwydd ar ôl i chi gyflwyno cais?	17
Beth allwn ei ariannu?	7	Gwybodaeth ychwanegol	22
Cyn i chi wneud cais	10		
Eich cyfraniad	12		


Cyflwyniad

Gan ddefnyddio arian a godir drwy'r Loteri Genedlaethol, mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ysbrydoli, yn arwain ac yn darparu adnoddau ar gyfer treftadaeth y DU i greu newid cadarnhaol a pharhaol i bobl a chymunedau, nawr ac yn y dyfodol.

Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw ein rhaglen agored ar gyfer holl fathau o brosiectau treftadaeth yn y DU.

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer ceisiadau am grantiau o £10,000 i £100,000 ac o £100,000 i £250,000. Os ydych yn ymgeisio am fwy na £100,000, mae'r broses asesu yn hirach ac yn fwy trwyadl.

Bydd y canllawiau hyn yn rhoi mwy o wybodaeth i chi ynghylch y rhaglen a'r mathau o brosiectau y gallwn eu hariannu. Bydd hefyd yr adnoddau canlynol yn ddefnyddiol wrth gyflwyno eich cais:

- **Ffurflen gais a nodiadau cymorth:** Mae'r ddogfen hon yn cynnwys cwestiynau'r ffurflen gais fel y gallwch weld yr hyn y byddwn yn ei ofyn i chi cyn i chi ddechrau ar eich cais. Mae'n cynnwys rhai nodiadau cyfarwyddyd i'ch helpu i ateb y cwestiynau (maent wedi'u cynnwys yn y ffurflen gais wrth i chi glicio ar yr eicon hwn: )
- **Derbyn grant:** Mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth ynghylch yr hyn sydd angen i chi ei wneud os ydych yn llwyddiannus ac mae'n cynnwys mwy o fanylion ynglŷn â'n gofynion.
- **Telerau safonol y grant:** Mae'r ddogfen hon yn amlinellu telerau ein grantiau.
- **Canllaw arfer da:** Dolen gyswllt i ddogfennau ynghylch amrywiaeth o bynciau i'ch helpu i gyflawni prosiect o safon uchel.



Mae'r eicon hwn yn cael ei ddangos wrth ochr y dolenni i'r wybodaeth bellach ar-lein.

Ynglŷn â'r rhaglen

Enw'r rhaglen

Grantiau Treftadaeth y Loteri
Genedlaethol

Grantiau o

£10,000 i £250,000

Gofynion

Rhaid i chi beidio â dechrau ar
eich prosiect cyn i ni wneud
penderfyniad ac mae'n rhaid iddo
ganolbwyntio ar dreftadaeth yn y
DU

Hyd y prosiect

Hyd at bum mlynedd

£10,000–£100,000

Ceisiadau gan

sefydliadau dielw a
phartneriaethau a arweinir
gan sefydliadau dielw

Terfynau amser

Nid oes terfynau amser felly
gallwch wneud cais pryd bynnag y
bydd yn barod

Y broses asesu

Byddwn yn asesu eich cais ac yn
rhoi penderfyniad i chi ymhen
wyth wythnos

£100,000–£250,000

Ceisiadau gan

sefydliadau dielw a
phartneriaethau sy'n cael eu
harwain gan sefydliadau dielw

Terfynau amser

Ceir terfynau amser bob chwarter,
a gallwch ddod o hyd iddynt ar ein
[gwefan](#) ↗

Y broses asesu

Byddwn yn asesu eich cais ymhen
12 wythnos ac, yn dilyn yr asesiad,
bydd yn cael ei neilltuo i gyfarfod
pwyllgor chwarterol

Eich cyfraniad

Mae'n rhaid i chi gyfrannu o leiaf
5% o gostau eich prosiect

**Rhaid i'ch prosiect beidio â dechrau
cyn bod penderfyniad yn cael ei
wneud a rhaid iddo ganolbwyntio ar
dreftadaeth yn y DU.**

Rhestr wirio ar gyfer ceisiadau

Defnyddiwch y rhestr wirio ddefnyddiol hon i sicrhau eich bod yn barod i gyflwyno cais



- Rydw i wedi cwblhau'r **cwis hunanasesu ar-lein**
- Rydw i wedi darllen y ddogfen ganllaw yma
- Rydw i wedi darllen **telerau ac amodau'r** rhaglen grant hon
- Rydw i wedi llunio cyllideb i'r prosiect ac wedi gwirio fy nghostau
- Rydw i wedi cynllunio sut i **werthuso fy mhrosiect**
- Rydw i wedi cwblhau'r cynllun prosiect (templed ar gael ar ein **gwefan** [↗](#))
- Rydw i wedi atodi'r holl **ddogfennau ategol** [↗](#) gorfodol

Os yn berthnasol

- Gallaf fodloni'r gofynion perchnogaeth ar gyfer yr eiddo sy'n derbyn grant
- Mae gen i bob trwydded a'r caniatâd sydd ei hangen arnaf (er enghraifft, trwydded ystlumod neu ganiatâd adeilad rhestredig)

Pwy all wneud cais?

O dan y rhaglen hon, rydym yn derbyn ceisiadau gan y canlynol:

- sefydliadau dielw
- perchnogion preifat treftadaeth (sy'n gallu gwneud cais hyd at £100,000)
- partneriaethau

Dyma rai enghreifftiau o'r mathau o sefydliadau rydym yn eu cyllido:

- elusennau, ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol corfforedig
- grwpiau cymunedol a grwpiau gwirfoddol
- cynghorau cymuned neu blwyf
- cwmnïau buddiant cymunedol
- sefydliadau ffydd neu eglwys
- awdurdodau lleol
- sefydliadau eraill y sector cyhoeddus
- perchnogion preifat treftadaeth (er enghraifft, unigolion neu sefydliadau masnachol)

Os ydych yn gwneud cais ar y cyd, bydd angen i chi benderfynu pa sefydliad fydd yr ymgeisydd arwain.

Byddwn yn gofyn am gael gweld eich cyfansoddiad neu ddogfen lywodraethol (gweler dogfennau ategol ar dudalen 15). Rhaid i chi fod ag o leiaf dau o bobl ar eich bwrdd neu bwyllgor rheoli nad ydynt yn perthyn drwy waed neu briodas neu sy'n byw yn yr un cyfeiriad.

Os ydych chi'n berchennog preifat neu os yw perchennog preifat yn rhan o'ch prosiect, byddwn yn asesu p'un a yw'r budd i'r cyhoedd yn gorbwyso unrhyw elw preifat, felly ystyriwch hyn yn eich cais.

Partneriaethau

Rydym yn eich annog i weithio gyda phobl eraill i ddatblygu a chynnal eich prosiect. Os ydych yn bwriadu gweithio gyda sefydliad arall i gynnal rhan helaeth o'ch prosiect, rydym yn eich cynghori i ffurfioli eich perthynas â chytundeb partneriaeth.

Os bydd partneriaid eich prosiect yn darparu nwyddau neu wasanaethau y telir amdanynt drwy ein grant, bydd angen i ni weld eich cytundeb partneriaeth fel rhan o'ch cais (gweler dogfennau ategol ar dudalen 15 a'r canllawiau ar gaffael ar dudalen 20).

Os ydych yn gwneud cais ar y cyd, bydd angen i chi benderfynu pa sefydliad fydd yr ymgeisydd arwain.

Bydd yr ymgeisydd arwain yn cwblhau'r ffurflen gais ac, os ydych yn llwyddiannus, bydd yn derbyn y grant ac adrodd ar gynnydd. Fel arfer, rydym yn disgwyl i brif berchennog y dreftadaeth fod yr ymgeisydd arwain.

Os nad perchennog y dreftadaeth sy'n cyflwyno'r cais, yna byddwn yn gofyn iddo lofnodi telerau'r grant.

Beth allwn ei ariannu?

Rydym yn ariannu prosiectau sy'n cysylltu pobl a chymunedau â threftadaeth genedlaethol, ranbarthol a lleol y DU.

Gall treftadaeth olygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Gall olygu unrhyw beth o'r gorffennol rydych yn ei werthfawrogi ac am drosglwyddo i genhedloedd y dyfodol.

Fel canllaw, gallai hyn olygu:

- atgofion a phrofiadau pobl (a gofnodir yn aml fel 'hanes ar lafar')
- traddodiadau diwylliannol (fel straeon, gwyliau, crefftau, cerddoriaeth a dawns)
- natur (fel cynefinoedd, rhywogaethau a daeareg)
- tirweddau naturiol a rhai a gynlluniwyd megis parciau a gerddi
- archaeoleg gymunedol
- adeiladau, cofebion ac amgylcheddau hanesyddol
- casgliadau o wrthrychau, llyfrau neu ddogfennau mewn amgueddfeydd, llyfrgelloedd neu archifau
- hanesion pobl a chymunedau neu leoedd a digwyddiadau
- treftadaeth ieithoedd a thafodieithoedd
- lleoedd a gwrthrychau sy'n gysylltiedig â'n hanes diwydiannol, morwrol a thrafnidiaeth

Ar lefel y grant hwn, gallwn hefyd ariannu gweithgareddau i gefnogi sefydliadau sydd eisiau adeiladu ar eu gallu neu cyflawni newid strategol sylweddol.

Gallai hyn gynnwys datblygu sgiliau neu wybodaeth newydd, ac archwilio modelau llywodraethu, arweinyddiaeth, busnes ac incwm newydd er mwyn gwella'r modd y rheolir eich treftadaeth dros y tymor hir.

Os ydych yn gwneud cais am grant mwy, byddwn yn ystyried i ba raddau mae eich prosiect arfaethedig yn helpu i ddiogelu buddsoddiad blaenorol gennym wrth i ni asesu gwerth am arian eich cais.

I ddarganfod mwy am y math hwn o weithgaredd, darllenwch ein harweiniad ar wydnwch ar ein gwefan.

Rydym ond yn ariannu prosiectau:

- sydd â chynllun eglur gyda dechrau, canol a diwedd diffiniedig
- nad ydynt wedi dechrau eto
- fydd yn parhau hyd at bum mlynedd

Rydym yn gallu talu am ystod eang o gostau uniongyrchol prosiect. Fel enghraifft, gall eich prosiect gynnwys:

- treuliau gwirfoddolwyr
- costau hyfforddiant
- costau digwyddiadau (gan gynnwys llogi ystafell, lluniaeth ac offer)
- gwaith cyfalaf
- pris prynu eitemau treftadaeth (gan gynnwys tir, adeiladau a chasgliadau)
- swyddi staff newydd
- ffioedd proffesiynol (er enghraifft, costau cyfreithiol)
- costau i wella mynediad at eich treftadaeth
- gweithgareddau i gryfhau eich sefydliad

Ni allwn dalu am y canlynol:

- swyddi staff presennol neu gostau sefydliadol (heblaw eu bod wedi'u cyfrifo drwy adennill costau llawn)
- cyfrifoldebau statudol a/neu gyfreithiol
- hyrwyddo achosion neu greddau sefydliadau gwleidyddol neu ffydd
- TAW adferadwy
- costau unrhyw weithgaredd sydd wedi digwydd cyn i'r grant gael ei ddyfarnu

Os yw'ch prosiect wedi'i leoli yng Nghymru, rydym yn disgwyl i chi wneud defnydd priodol o'r Gymraeg pan fyddwch yn cyflenwi'ch prosiect. Gallwch chi ddod o hyd i ganllawiau am ddefnyddio'r Gymraeg yn eich prosiect ar ein gwefan. [↗](#)

Adennill costau llawn

Os ydych yn sefydliad o fewn y sector gwirfoddol, gallwn dalu cyfran o orbenion eich sefydliad, y mae'n rhaid iddynt fod yn briodol i'r amser neu adnoddau a ddefnyddiwyd ar gyfer eich prosiect. Gallwn hefyd dalu cyfran o gost aelod o staff sy'n bodoli eisoes, cyn belled nad yw'n gweithio ar y prosiect a ariennir yn unig. Rydym yn disgwyl i'r cyfraniad hwn gael ei gyfrifo gan ddefnyddio Adennill Costau Llawn.

Yn ôl y sector gwirfoddol, rydym yn golygu sefydliadau sy'n annibynnol o'r llywodraeth lle mae'r llywodraethu, cyllid ac adnoddau yn cynnwys ffocws gwirfoddol. Er enghraifft, gall fod gan sefydliad o fewn y sector gwirfoddol fwrdd ymddiriedolwyr, gall gael ei ariannu gan grantiau a rhoddion, a gall ddibynnu ar wirfoddolwyr i gwblhau ei amcanion.

Ni allwn dderbyn ceisiadau am Adennill Costau Llawn gan sefydliadau'r sector cyhoeddus (megis amgueddfeydd a gyllidir gan y llywodraeth, awdurdodau lleol neu brifysgolion).

Mae arweiniad cydnabyddedig ar gyfrifo'r cyfanswm adennill costau llawn sy'n berthnasol i'ch prosiect ar gael gan sefydliadau megis Cymdeithas Prif Weithredwyr Sefydliadau Gwirfoddol (ACEVO) [↗](#) a **Chronfa'r Loteri Fawr** [↗](#). Bydd angen i chi ddangos i ni sut rydych wedi cyfrifo'ch costau, yn seiliedig ar gyfrifon a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Yna, bydd rhaid i chi ddweud wrthym ar ba sail rydych wedi pennu cyfran o'r costau i'r prosiect rydych yn gofyn i ni ei gyllido, a byddwn yn asesu a yw hyn yn deg ac yn rhesymol.

Os ydych yn sefydliad yn y sector gwirfoddol, gallwn dalu am gyfran o orbenion eich sefydliad sy'n briodol ar gyfer yr amser a'r adnoddau a ddefnyddir ar gyfer eich prosiect.

Perchnogion preifat treftadaeth

Os ydych yn berchennog preifat treftadaeth, ni fyddwn yn ariannu'r canlynol:

- gwaith a allai gael ei ystyried yn ddyletswydd statudol y perchennog
- prynu adeiladau neu unrhyw asedau treftadaeth
- codi adeiladau newydd

Fel perchennog preifat treftadaeth, mae'n rhaid i chi ddangos fod y budd i'r cyhoedd yn sgil eich prosiect yn gorbwyso unrhyw elw preifat.

Os yw eich prosiect yn cynnwys unrhyw waith cyfalaf, bydd yn rhaid i chi ddangos i ni:

- y bydd eich prosiect yn cynyddu mynediad i'r cyhoedd yn sylweddol ac ymgysylltiad y cyhoedd â threftadaeth
- bod brwdfrydedd amlwg gan y cyhoedd am y prosiect a'u bod yn ei gefnogi
- bod angen buddsoddiad y Loteri Genedlaethol ar y prosiect

Cynlluniau grant cymunedol

Fel rhan o'ch prosiect, gallwch ofyn i ni gyfrannu at arian wedi'i glustnodi y gallwch ei ddefnyddio i ariannu grwpiau/sefydliadau eraill i gyflwyno prosiectau bach ar wahân. Rydym yn galw'r grantiau hyn yn 'grantiau cymunedol'. Bydd y grantiau cymunedol hyn yn cyfrannu at amcanion cyffredinol eich prosiect. Mae'n rhaid i unrhyw grantiau fel hyn ddangos gwerth da am arian, a dylai'r budd i'r cyhoedd orbwyso unrhyw elw preifat. Chi fydd yn gyfrifol am y cyllid, am ddatblygu proses ymgeisio â phanel penderfynu, ac am fonitro cynnydd. Mae'n rhaid i'r cynllun grant cymunedol hefyd gael ei hysbysebu gennych chi er mwyn iddo fod yn hysbys yn eang ac yn agored i bawb.

Gallwch ddyfarnu grantiau i grwpiau cymunedol dielw neu berchnogion preifat treftadaeth (er enghraifft, perchnogion archifau, tir neu adeiladau). Mae'r grantiau rydych yn eu dyfarnu yn gallu bod ar gyfer gwaith cyfalaf a gweithgareddau.

Gallwch ofyn i ni gyfrannu at arian wedi'i glustnodi i ariannu sefydliadau eraill i gyflwyno prosiectau llai.

Rydym yn argymhell nad yw cyfanswm yr arian sydd wedi'i neilltuo ar gyfer cynllun grant cymunedol yn fwy na £200,000.

Dylech leihau unrhyw grant unigol i:

- gweithgaredd: £10,000
- cyfalaf: £25,000

Efallai y bydd yn rhaid i rai prosiectau fynd y tu hwnt i'r terfyn eithaf er mwyn cadw treftadaeth sy'n allweddol i gymeriad ardal – er enghraifft, os ydych yn adnewyddu adeilad fel rhan o gynllun treflun. Os oes angen cyllideb grant cymunedol fwy ar eich prosiect neu ddyfarniadau mwy i drydydd partiön unigol, bydd angen i chi ein hysbysu ynghylch hyn yn eich ffurflen datganiad o ddiddordeb a'i gyfiawnhau yn eich cais.

Os yw eich prosiect yn cynnwys grantiau cymunedol i naill ai sefydliadau neu unigolion ar gyfer gwaith cyfalaf i'r dreftadaeth sy'n eiddo iddynt, rhaid i'r grantiau hyn gael eu llywodraethu yn y dyfodol gan gytundeb gwaith cynnal a chadw deng mlynedd.

Ni chaniateir caffaeliadau tir, adeiladau nac eitemau treftadaeth dan gynlluniau grant cymunedol.

Gallwch chi ddod o hyd i fwy o wybodaeth am [grantiau cymunedol](#) [a gwaith cynnal a chadw](#) [ar ein gwefan](#).

Os oes angen cyllideb grantiau cymunedol mwy ar eich prosiect neu ddyfarniad mwy i drydydd parti unigol, bydd angen i chi gyfiawnhau hyn yn eich cais.

Rhaid i unrhyw grantiau i drydydd partiön arddangos gwerth da am arian a dylai'r budd i'r cyhoedd fod yn fwy nag unrhyw fuddion preifat.

Cyn i chi wneud cais

Mae angen i bob un o'r prosiectau rydym yn eu cefnogi:



- fodloni un neu fwy o'r canlyniadau ar y dudalen hon, gan gynnwys yr un gorfodol
- mynd i'r afael â chynaliadwyedd amgylcheddol
- hyrwyddo rôl y Loteri Genedlaethol wrth wireddu'r prosiect
- cynnal gwerthusiad

Bydd yr wybodaeth yn yr adran hon yn eich helpu i ystyried y pwyntiau hyn yn ystod y cam cynnar o gynllunio eich cais.

Arweiniad

Mae gennym lawer o wybodaeth ar ein gwefan i'ch helpu i reoli a datblygu eich prosiect.

Mae'r canlynol yn ddeunydd darllen hanfodol ar gyfer pob prosiect:

- [Gwybodaeth ar sut i gydnabod eich grant](#) 
- [Canllawiau gwerthuso](#) 
- Canllawiau ar gynaliadwyedd amgylcheddol (ar gael ar ein gwefan)

Os yw eich prosiect yn ymwneud â gwaith cyfalaf, dylech hefyd ddarllen y dogfennau canlynol sydd ar gael ar ein gwefan:

- Canllawiau cynllun cadwraeth
- Canllawiau cynllun rheoli a chynnal a chadw

Diffiniad canlyniadau yw newidiadau, effeithiau neu fanteision sy'n digwydd o ganlyniad uniongyrchol i'ch prosiect.

Canlyniadau


Rydym yn disgrifio'r gwahaniaeth rydym yn dymuno ei wneud gyda'n cyllid drwy gyfrwng naw canlyniad. Diffiniad canlyniadau yw newidiadau, effeithiau neu fanteision sy'n digwydd o ganlyniad uniongyrchol i'ch prosiect.

Bydd pob prosiect a ariennir gennym yn bodloni un neu fwy o'r canlyniadau hyn. Bydd nifer y canlyniadau rydych yn eu cyflawni yn dibynnu ar yr hyn rydych am ei gyflenwi a dylent fod yn gymesur i faint y grant rydych yn gwneud cais amdano neu ffocws penodol eich prosiect.

Rydym yn disgwyl i brosiectau gyflawni rhai canlyniadau yn gryfach na rhai eraill. Gofynnwn i chi ganolbwyntio ar y canlyniadau sydd gryfach ar gyfer eich prosiect, oherwydd byddwn yn monitro eich cynnydd yn erbyn y rhain a byddwch yn eu defnyddio i werthuso'r newid mae eich prosiect wedi'i wneud.

Rhaid i bob prosiect gyflawni'r canlyniad **'bydd ystod ehangach o bobl yn ymwneud â threftadaeth'** fel isafswm.

- **Bydd ystod ehangach o bobl yn ymwneud â threftadaeth (canlyniad gorfodol)**
- Bydd y dreftadaeth mewn cyflwr gwell
- Bydd y dreftadaeth yn cael ei nodi a'i hesbonio'n well
- Bydd pobl wedi datblygu sgiliau
- Bydd pobl wedi dysgu am y dreftadaeth, gan arwain at newid mewn syniadau a gweithredoedd
- Bydd pobl yn cael mwy o les
- Bydd y sefydliad a ariennir yn fwy cydnerth
- Bydd yr ardal leol yn lle gwell i fyw neu weithio ynddi neu i ymweld â hi
- Bydd yr economi leol yn cael hwb

Ceir mwy o wybodaeth am ein canlyniadau, a sut gallwch fesur eich cynnydd yn eu herbyn, yn y ffurflen gais [ar nodiadau cyfarwyddyd](#)  ar gyfer y rhaglen hon.

Effaith amgylcheddol

Bydd angen i chi ystyried sut i wneud eich prosiect yn fwy cynaliadwy trwy gynyddu effeithiau amgylcheddol cadarnhaol a lleihau effeithiau negyddol, a dylech ymgorffori hyn yn eich prosiect o'r dechrau.

Dylech hefyd ystyried sut byddech yn gwerthuso eich mesurau cynaliadwyedd a sicrhau bod hyn yn rhan o strategaeth werthuso eich prosiect. Byddwn yn gofyn i chi nodi ac adrodd ar y camau rydych yn eu cymryd. Mae ein canllawiau ar yr effaith amgylcheddol yn darparu rhywfaint o gyngor cyffredinol, a gallwch hefyd gael hyd i gymorth ymarferol o'r rhwydwaith '[Fit for the Future](#)'. [↗](#)

Hyrwyddo eich grant Loteri Genedlaethol

Rhaid i chi ymrwymo i gydnabod eich grant a hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol. Gallwch weld mwy am ein gofynion sylfaenol ynghylch cydnabyddiaeth ar ein [gwefan](#) [↗](#). Yn ogystal â chydnabod eich grant, rydym yn disgwyl i chi ddarparu mynediad arbennig a/neu gynigion i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, o leiaf unwaith y flwyddyn.

Rydym yn disgwyl i chi ddatblygu cynigion neu ddulliau hyrwyddo arloesol a chreadigol i ddiolch chwaraewyr y Loteri Genedlaethol am eu cefnogaeth ac i godi ymwybyddiaeth o'r cyllid rydych wedi'i dderbyn. Gellir gweld enghreifftiau o'r rhain, ac esiamplau o bethau creadigol mae prosiectau eraill wedi'u cyflawni, ar ein [gwefan](#).

Gwerthuso

Rydym yn argymhell eich bod yn ymgorffori gwerthusiadau ar ddechrau'r prosiect. Mae ein tystiolaeth yn dangos mai'r mwyaf gofalus mae prosiectau yn cyllidebu ar gyfer gwerthuso, gorau oll yw safon yr adroddiad terfynol. Rydym wedi argymhell isafswm gwariant ar werthuso a gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth ynglŷn â hyn ar ein [gwefan](#). [↗](#)

Ar ddiwedd eich prosiect, byddwn yn disgwyl rhywfaint o adborth gwerthuso, mewn dwy ran:

- eich adroddiad gwerthuso eich hun, wedi'i anfon atom cyn i ni dalu'r 10% sy'n weddill o'ch grant
- holiadur gwerthuso, o fewn un flwyddyn o gwblhau'r prosiect. Gallwch weld yr wybodaeth rydym am i chi adrodd arni yn ein canllawiau gwerthuso ar ein [gwefan](#). [↗](#)

Rhaid i chi ymrwymo i gydnabod eich grant a hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol.

Eich cyfraniad

Bydd eich cyfraniad yn dibynnu ar swm y grant rydych yn gofyn amdano.

Ar gyfer grantiau rhwng £10,000 a £100,000

Ar lefel y grant hwn, nid ydym yn gofyn am gyfraniad gennych ond dylech ystyried a allai cyllidwyr, sefydliadau neu bobl eraill gefnogi eich prosiect. Bydd hyn o gymorth i ddangos bod pobl a sefydliadau eraill yn ymroddedig i'ch prosiect. Byddwn yn asesu a yw eich prosiect yn cynnig gwerth am arian da a byddwn yn ystyried eich cyfraniad.

Ar gyfer grantiau rhwng £100,000 a £250,000

Ar lefel y grant hwn, rydym yn gofyn i chi gyfrannu o leiaf 5% o gostau eich prosiect. Rydym yn disgrifio'r cyfraniad hwn fel 'cyllid partneriaeth' a gall gwmpasu arian parod, cyfraniadau nad ydynt yn arian parod, amser gwirfoddolwyr neu gyfuniad o'r rhain i gyd.

Cyfraniadau arian parod

Gallai hyn fod o gronfeydd eich sefydliad eich hun, rhodd gan gymwynaswr, grant oddi wrth gyllidwr arall neu gymorth arall a geir trwy godi arian (fel cyllido torfol).

Cyfraniadau nad ydynt yn ariannol

Mae hyn yn cynnwys unrhyw beth sydd ei angen arnoch ar gyfer eich prosiect nad oes rhaid i chi dalu amdano (er enghraifft, llogi ystafell neu offer). Rydym ond yn derbyn cyfraniadau nad ydynt yn ariannol os ydynt yn gostau prosiect uniongyrchol a allai fod yn rhan o gyllideb eich prosiect.

Amser gwirfoddolwyr

Dyma'r amser mae gwirfoddolwyr yn ei roi i gyflenwi eich prosiect. Gallai hyn gynnwys gwaith gweinyddol, clirio safle neu weithio fel stiward mewn digwyddiad. Ni ddylech gynnwys costau ar gyfer amser y bobl a fydd yn cymryd rhan yn eich gweithgareddau (er enghraifft, pobl sy'n mynychu gweithdy neu'n mynd ar daith dywysedig).

Rydym yn defnyddio cyfradd safonol i gyfrifo gwerth eich amser gwirfoddolwyr:

Gwirfoddolwyr proffesiynol (er enghraifft, cyfrifeg neu addysgu)	£50 fesul awr
Gwirfoddolwr crefftus (er enghraifft, arwain taith gerdded dywysedig)	£20 fesul awr
Gwirfoddolwr (er enghraifft, clirio safle neu weithio fel stiward mewn digwyddiad)	£10 fesul awr

Cyllid y Loteri Genedlaethol

Gallwch ddefnyddio cyllid gan ddsbarthwr Loteri Genedlaethol arall i gyfrannu at eich prosiect fel arian partneriaeth. Fodd bynnag, ni all hyn gyfrif tuag at eich cyfraniad gofynnol o 5%, y mae'n rhaid iddo ddod o gyfraniadau gennych chi neu gan ffynonellau eraill, heb gynnwys y Loteri Genedlaethol.

Sut rydym yn asesu eich cais

Mae ein proses ymgeisio yn gystadleuol iawn ac nid ydym yn gallu ariannu pob cais da rydym yn ei dderbyn. I'ch helpu i ddatblygu eich syniad, rydym yn cynnig cyngor cyn i chi wneud cais, y byddwn yn ei ddefnyddio wrth asesu eich prosiect.

Pan fyddwch chi wedi darllen y canllawiau ymgeisio hyn, gallwch ddweud wrthym am eich syniad trwy gyflwyno ffurflen ymholiad am brosiect ar-lein. Byddwn wedyn yn cysylltu â chi o fewn deg diwrnod gwaith er mwyn rhoi gwybod i chi p'un a ydych yn cwrdd â'n gofynion ac i gynnig ychydig o gyngor i'ch helpu i ddatblygu eich prosiect ymhellach.

Ar ôl i chi anfon eich cais ar-lein, byddwn yn gwirio popeth sydd ar waith a byddwn yn cysylltu â chi er mwyn rhoi gwybod i chi pryd y gallwch ddisgwyl penderfyniad. Oni bai bod angen i ni wirio unrhyw beth gyda chi, mae'n annhebygol y byddwch yn clywed oddi wrthym eto nes ein bod yn eich hysbysu o'r penderfyniad.

Fel sefydliad sy'n rhoi arian cyhoeddus, rydym yn cynnal rhai gwiriadau ar yr wybodaeth rydych yn ei darparu i ni wrth ymgeisio (er enghraifft, efallai y byddwn yn gwirio eich hanes gyda ni neu gynnal gwiriadau hunaniaeth neu dwyll.)

Mae ein proses asesu yn dibynnu ar eich cais am grant

Cyfanswm y grant	Asesu	Cyfarfod penderfynu	Penderfynwr
£10,000– £100,000	8 wythnos	Cyfarfod panel misol	Pennaeth Rhanbarth
£100,000– £250,000	12 wythnos	Unwaith i'ch cais gael ei asesu, bydd yn mynd at gyfarfod chwarterol nesaf y pwyllgor	Pwyllgor

Y broses ymgeisio



Darllenwch y canllawiau ymgeisio a chynlluniwch eich prosiect



Anfonwch ffurflen ymholiad am brosiect atom er mwyn cael cyngor oddi wrthym



Datblygwch eich prosiect ymhellach



Ymgeisiwch ar-lein pan fyddwch yn barod neu erbyn y terfyn amser cyhoeddus os ydych yn gwneud cais am dros £100,000



Byddwn yn asesu eich cais ymhen 8 neu 12 wythnos



Byddwn yn cysylltu â chi er mwyn rhoi gwybod i chi beth yw'r penderfyniad

Pan fyddwn yn asesu eich cais, byddwn yn ystyried amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys y canlynol:

- p'un a yw eich prosiect yn berthnasol i dreftadaeth y DU
- pa anghenion a chyfleoedd y bydd y prosiect yn mynd i'r afael â nhw
- pa mor llwyddiannus bydd eich prosiect yn bodloni ein canlyniadau
- gwerth cyffredinol am arian
- risgiau posibl i lwyddiant y prosiect
- sut bydd canlyniadau'r prosiect yn cael eu cynnal
- eich ymagwedd tuag at gynaliadwyedd amgylcheddol

Os yw eich cais yn cael ei asesu fel darparu gwerth isel am arian, gall gael ei wrthod yn gynharach yn ystod y cyfnod asesu, a byddwn yn eich hysbysu ynghylch hyn ar y pryd.

Dylech ateb yr holl gwestiynau yn y ffurflen gais a sicrhewch eich bod yn disgrifio eich prosiect yng nghwestiwn 1c. Dyma unig adran y ffurflen gais sy'n cael ei chyflwyno'n uniongyrchol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau drosom. Dyma eich cyfle chi i esbonio eich prosiect yn eich geiriau eich hunan.

Yr wybodaeth sydd ei hangen arnom

Bydd angen i chi wybod digon o fanylion am eich prosiect er mwyn rhoi syniad realistig i ni o'r costau.

Mae'r tabl isod yn dangos lefel y wybodaeth sydd ei hangen arnom i allu gwneud dyfarniad am y canlyniadau y bydd eich prosiect yn eu cyflawni.

Lefel y wybodaeth

Gweithgareddau Gwybodaeth am y grŵp neu'r grwpiau o bobl y byddwch yn gweithio â hwy.

Cynhwyswch amcangyfrifon o niferoedd. Dangoswch i ni eich bod wedi bod mewn cysylltiad â'r grwpiau hyn a'u bod yn awyddus i gymryd rhan.

Gwybodaeth am y gweithgareddau y bydd eich prosiect yn eu cyflenwi.

Mewn rhai achosion, byddwch yn gallu rhoi'r union fanylion o'r gweithgareddau y byddwch yn eu gwneud i ymgysylltu â phobl neu gymunedau (neu'r ddau). Fel lleiafswm, darparwch i ni gynllun manwl ar gyfer Blwyddyn 1 a/neu Flwyddyn 2 a disgrifiwch y broses y byddwch yn mynd drwyddi i ddatblygu eich prosiect ym Mlwyddyn 2 a/neu Flwyddyn 3. Gallwch gynnwys costau sy'n gysylltiedig â'r gwaith datblygu hwn.

Gwybodaeth am ba bartneriaid y byddwch yn cydweithio â hwy (os oes rhai).

Os byddwch yn datblygu partneriaethau yn ystod eich prosiect, dangoswch i ni eich bod wedi gwneud y cyswllt cychwynnol a'u bod yn hapus i fod ynghlwm â'r prosiect.

Cyfalaf

Manylion o'r gwaith cyfalaf rydych chi'n bwriadu ei wneud, gan gynnwys sicrwydd y bydd gennych yr adnoddau digonol i'w ddatblygu ymhellach, a digon o gyllideb wrth gefn.

Peth cymhorthion gweledol yn dangos pa wahaniaeth bydd y gwaith cyfalaf yn ei wneud, fel ffotograffau o sut olwg sydd ar y dreftadaeth ar hyn o bryd, a lluniau o sut olwg fydd arni ar ddiwedd eich prosiect.

Yn dibynnu ar gymhlethdod eich prosiect, efallai byddwn yn gofyn i chi gyflwyno'r canlynol: arolwg o'r dreftadaeth ffisegol (er enghraifft, arolwg cyflwr o adeilad hanesyddol neu gofeb), neu arolwg coed; tystiolaeth yn dangos bod y gwaith rydych yn bwriadu ei wneud yn dilyn arfer da (er enghraifft, llythyr yn dangos cefnogaeth gan eich Swyddog Cadwraeth neu'r corff statudol priodol).

Dogfennau Ategol

Bydd angen i chi gyflwyno'r dogfennau ategol perthnasol, sydd wedi'u hamlinellu yn yr adran hon.

Ni fydd rhai o'r dogfennau yn berthnasol i'ch prosiect a bydd yr wybodaeth ychwanegol yn y tabl hwn yn eich helpu i benderfynu a ydynt yn berthnasol.

Mae popeth sydd ei angen arnom i asesu eich cais yn cael ei gynnwys yn y ffurflen gais a'r dogfennau ategol canlynol. Peidiwch â chyflwyno unrhyw ddogfennau ychwanegol, oherwydd ni fyddwn yn eu defnyddio wrth asesu eich cais.

1. Dogfen lywodraethu (er enghraifft, cyfansoddiad)

Nid oes angen i ni weld eich dogfen lywodraethu os:

- ydych yn sefydliad cyhoeddus (er enghraifft, awdurdod lleol)
- rydych chi'n berchennog preifat ar dreftadaeth

Dylai'ch dogfen lywodraethu gynnwys y canlynol:

- enwau ac amcanion eich sefydliad
- datganiad sy'n rhwystro eich sefydliad rhag dosbarthu incwm neu eiddo i'w aelodau yn ystod ei oes

- datganiad sy'n cadarnhau, os bydd eich sefydliad yn cael ei gau neu'n dod i ben, y bydd asedau'r sefydliad yn cael eu dosbarthu i sefydliad elusennol neu ddielw arall ac nid i aelodau'r sefydliad
- y dyddiad pan gafodd ei fabwysiadu a llofnod eich cadeirydd (neu unigolyn awdurdodedig arall)

Nid ydym yn gallu derbyn eich cais os nad yw eich cyfansoddiad yn cynnwys yr uchod.

Sicrhewch fod eich prosiect yn diwallu amcanion eich sefydliad.

Mae'r Comisiwn Elusennau yn darparu [arweiniad](#) ar greu dogfen lywodraethu.

2. Cyfrifon

Cynhwyswch eich cyfrifon diweddaraf sydd wedi cael eu harchwilio neu wirio gan gyfrifydd.

Os ydych yn sefydliad newydd ac nad oes gennych set o gyfrifon archwilledig, cyflwynwch eich tair cyfriflen ddiweddaraf neu lythyr gan eich banc yn cadarnhau eich bod wedi agor cyfrif.

Nid oes angen i ni weld eich cyfrifon os ydych yn sefydliad cyhoeddus (er enghraifft, awdurdod lleol).

3. Cynllun prosiect (gorfodol)

Mae'n rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno cynllun prosiect.

Rydym yn argymhell eich bod yn defnyddio'r templed sydd ar gael ar ein [gwefan](#).

4. Cytundebau partneriaeth (os yn berthnasol)

Os ydych yn bwriadu gweithio â sefydliad arall i gynnal eich prosiect, mae'n arfer da cael cytundeb partneriaeth. Dylai'r ddogfen hon amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r ddau bartner a dylai pob parti ei llofnodi. Gallwch ddod o hyd i enghraifft o gytundeb partneriaeth ar ein gwefan, a allai fod o ddefnydd i chi fel man cychwyn. Dylai'r cytundeb hwn adlewyrchu anghenion eich prosiect ac efallai bydd angen i chi geisio cyngor annibynnol.

Mae ond angen i chi gynnwys cytundeb partneriaeth os bydd eich sefydliad partner yn derbyn taliadau grant i gyflenwi rhan o'ch prosiect.

5. Arolwg cyflwr

Os yw eich prosiect yn cynnwys cadwraeth treftadaeth, mae'n rhaid i chi gyflwyno arolwg cyflwr neu ddogfen briodol arall (er enghraifft, cynllun cadwraeth drafft neu amlinellol). Dylai'r ddogfen hon ddweud wrthym am gyflwr y dreftadaeth ar hyn o bryd a'r gwaith sydd ei angen er mwyn adfer y dreftadaeth i gyflwr da.

Er enghraifft, os ydych yn bwriadu cadw cofeb ryfel leol, bydd angen i chi wybod beth yw ei chyflwr presennol a pha waith trwsio sydd ei angen. Dylai'r arolwg neu adroddiad nodi blaenoriaeth gymharol y gwaith awgrymedig hefyd fel eich bod yn gwybod pa waith sydd fwyaf hanfodol ac arno angen mynd i'r afael ag ef yn gyntaf.

6. Disgrifiadau swydd (os yn berthnasol)

Os ydych yn bwriadu cyflogi aelod newydd o staff i helpu i gyflenwi eich prosiect, gan gynnwys prentis, cyflwynwch swydd-ddisgrifiad ar gyfer y swydd honno.

Noder: Mae'n rhaid i chi hysbysebu holl swyddi staff newydd yn agored, oni bai eich bod yn cynyddu oriau aelod presennol o staff neu'n symud aelod presennol o staff i swydd yn y prosiect.

7. Briffiau ar gyfer gwaith sydd wedi'i gomisiynu'n fewnol ac yn allanol (os yn berthnasol)

Mae briffiau yn disgrifio unrhyw waith rydych yn bwriadu ei gomisiynu yn ystod eich prosiect. Os ydych yn comisiynu gwaith (er enghraifft, gan artist neu bensaer), yna dylech gyflwyno briff.

Dylai'r briff ddisgrifio'r gwaith, pa mor hir y bydd yn ei gymryd, faint bydd yn ei gostio, a'r sgiliau gofynnol. Gallwch ddod o hyd i dempled briff ar ein gwefan.

8. Lluniau (dim mwy na chwech, os yn berthnasol)

Os yn berthnasol, darparwch luniau sy'n helpu i roi darlun o'ch prosiect.

Er enghraifft, os ffocws eich prosiect yw archif ffotograffiaeth lleol, efallai y byddwch am gynnwys ychydig o luniau o'r casgliad.

Os ydych eisiau gwella tirwedd neu ardal gadwraeth, dylech gynnwys map o'r ardal sy'n dangos lleoliad yr holl brosiectau y byddwch yn eu cyflenwi.

9. Llythyrau sy'n datgan cefnogaeth (dim mwy na chwech, os yn berthnasol)

Mae llythyrau sy'n datgan cefnogaeth yn ffordd dda o ddangos eich bod wedi siarad ag eraill a bod ganddynt ddiddordeb yn eich prosiect ac yn ymroddedig iddo.

Cyflwynwch llythyrau sy'n dangos cefnogaeth oddi wrth bobl sy'n ymwneud â'ch prosiect, yn hytrach na datganiadau cefnogol cyffredinol. Er enghraifft, os ydych yn bwriadu cyflenwi gweithdai yng nghlybiau ieuencid lleol, bydd llythyr yn datgan cefnogaeth yn dangos i ni eu bod nhw eisiau cymryd rhan.

Os yn bosibl, dylai llythyrau fod ar bapur pennawd neu wedi'u llofnodi.

10. Cyfrifiad ar gyfer adennill costau llawn (os yn berthnasol)

Os ydych yn cynnwys adennill costau llawn yng nghyllideb eich prosiect, mae'n rhaid i chi gynnwys dogfen sy'n amlinellu eich cyfrifiad.

Ni fyddwn yn dechrau asesu eich cais hyd nes y byddwch yn anfon yr holl ddogfennau ategol perthnasol atom.

11. Dogfennau perchnogaeth (os yn berthnasol)

Os ydych yn bwriadu gwneud unrhyw waith cyfalaf, neu'n bwriadu prynu tir/adeiladau/casgliadau, dylech gynnwys copi o unrhyw ddogfennau perchnogaeth perthnasol (er enghraifft, dogfennau perchnogaeth y Gofrestrfa Tir, neu brydles neu benawdau telerau).

Dylech atodi'r dogfennau ategol perthnasol i'ch ffurflen gais. Gallwn dderbyn y mwyafrif o fformatau ffeil safonol.

Wrth gyflwyno dogfennau ategol, defnyddiwch enwau'r dogfennau uchod fel ein bod yn gallu adnabod pob dogfen yn hawdd. Efallai y bydd peidio â defnyddio'r fformat hwn yn oedi'ch cais.

Beth fydd yn digwydd ar ôl i chi wneud cais?

Os bydd eich cais yn llwyddiannus:

Mae'n rhaid i chi aros i dderbyn caniatâd oddi wrthym cyn y gallwch ddechrau eich prosiect. Bydd angen i chi gyflwyno ffurflen ar-lein i ni, gan ddarparu:

- manylion eich cyfrif banc (gorfodol)
- tystiolaeth o berchenogaeth/gofynion lesddaliadol (ar gyfer pob prosiect cyfalaf, os oes unrhyw newid wedi digwydd ers y cais)
- manylion o ganiatadau statudol a/neu drwyddedau gofynnol ac a gafwyd (os yn berthnasol)
- cadarnhad o gyllid partneriaeth (os yn berthnasol)
- rhagolygon llif arian y prosiect (ond yn berthnasol ar gyfer prosiectau sy'n ymgymryd â gwaith cyfalaf neu ar gyfer grantiau dros £100,000)

- strwythur rheolaeth y prosiect a dulliau ar gyfer dewis ymgynghorwyr, contractwyr a chyflenwyr (ar gyfer grantiau dros £100,000)
- amserlen y prosiect neu raglen waith (ar gyfer grantiau dros £100,000)

Bydd angen cyfrif banc ar eich sefydliad. Rhaid i'r enw ar y cyfrif banc hwn gyd-fynd yn union ag enw'r sefydliad sy'n gwneud y cais.

Os yw'ch cais am grant yn is na £100,000, byddwn yn talu'r grant mewn tri rhandaliad:

- 1 Byddwn yn rhoi 50% o'r grant i chi ymlaen llaw
- 2 Unwaith i chi wario hanner cyntaf o gyfanswm costau cymwys eich prosiect, byddwn yn rhoi'r 40% nesaf

- 3 Byddwn yn talu 10% terfynol eich grant pan fyddwch wedi cwblhau'ch prosiect ac wedi anfon adroddiad cwblhau terfynol a gwerthusiad o'r prosiect atom

Os yw'ch cais am grant yn uwch na £100,000, byddwn yn talu rhandaliadau o'n grant ar ôl i'r gwaith rydych yn gofyn i ni dalu amdano gael ei gwblhau. Byddwn hefyd yn cadw'r 10% olaf o'ch grant nes ein bod yn fodlon bod y prosiect wedi'i gwblhau a'ch bod wedi cyflwyno'ch adroddiad cwblhau a gwerthusiad.

Canran y taliad

Byddwn yn ariannu canran o gyfanswm costau'r prosiect. Os byddwch chi neu sefydliad arall yn cyfrannu arian parod at y prosiect, yna byddwn yn rhoi grant i chi sy'n llai na 100% o gostau'r prosiect. Rydym yn disgrifio'r ganran hon fel 'canran y taliad'.

Dyma enghraifft, lle mae canran y taliad yn 90%:

Cyfanswm costau'r prosiect	£50,000
Eich cyfraniad arian parod	£5,000
Eich grant	£45,000
Canran y taliad	90%

Byddwn yn talu i chi 'ganran taliad' y cyfanswm a wariwyd gennych ar y prosiect.

- Os ydych yn gwario llai ar brosiect nag oeddech yn disgwyl, yna ni fyddwn yn talu'r grant llawn i chi
- Os byddwch yn gwario mwy ar brosiect nag oeddech yn disgwyl, yna ni fyddwn yn gallu rhoi i chi fwy na'r grant a roddwyd i chi gennym

Dyma enghraifft, lle roedd y cyfanswm a wariwyd ar y prosiect yn llai na'r disgwyl:

Cyfanswm costau'r prosiect yn y ffurflen gais	£50,000
Canran y taliad	90%
Cyfanswm a wariwyd ar y prosiect	£45,000
Cyfanswm rydym yn ei dalu	£40,500 (90% o £45,000)

Adrodd

Ar gyfer grantiau sy'n llai na £100,000, byddwn yn disgwyl i chi adrodd ar gynnydd eich prosiect o leiaf unwaith yn ystod oes y prosiect, ac unwaith pan fyddwch wedi cwblhau ochr yn ochr â'ch adroddiad gwerthuso.

Os ydych yn gwneud cais am grant sy'n fwy na £100,000, byddwn yn disgwyl i chi adrodd ar gynnydd eich prosiect o leiaf unwaith bob tro rydych yn gwneud cais am ôl-daliad. Dylid adrodd ar gynnydd bob chwarter o leiaf, gan gynnwys ar ôl cwblhau gyda'r adroddiad gwerthuso.

Disgwyliwn dystiolaeth o gyflenwi a gwariant, megis lluniau, adroddiadau, anfonebau a derbynebau. Mae gwybodaeth fanylach am ein proses fonitro i'w gweld yn y [ddogfen Derbyn Grant](#) ar ein gwefan.

Telerau'r Grant

Byddwn yn gofyn i chi ymuno â'n [telerau grant Safonol](#), y gallwch ddod o hyd iddyn nhw ar ein gwefan.

Mae hyd telerau'r grant yn dibynnu ar y swm sydd wedi'i ddyfarnu ar eich cyfer, natur y sefydliad sy'n ymgeisio, a math y prosiect.

Ar gyfer grantiau o £10,000 hyd at £100,000, bydd telerau'r grant yn para o'r dyddiad pan roddir caniatâd i ddechrau hyd at:

- **Gweithgaredd:** y dyddiad y mae'r prosiect yn gorffen (a elwir yn ddyddiad cwblhau'r prosiect)
- **Cyfalaf:** pum mlynedd ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect os ydych yn sefydliad dielw neu ddeng mlynedd ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect os ydych yn berchennog treftadaeth preifat.
- **Digidol:** pum mlynedd ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect os ydych yn sefydliad dielw neu ddeng mlynedd ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect os ydych yn berchennog treftadaeth preifat.

- **Caffaeliad:** Os yw eich prosiect yn cynnwys prynu eitem dreftadaeth, tir neu adeilad, bydd telerau'r grant yn para'n ddiderfyn. Os ydych yn dymuno cael gwared ar bethau rydych chi wedi eu prynu yn y dyfodol, mae'n rhaid i chi ofyn am ein caniatâd ac efallai byddwn yn hawlio'r grant cyfan neu ran ohono yn ôl.

Ar gyfer grantiau o £100,000 hyd at £250,000, bydd telerau'r grant yn para o'r dyddiad pan roddir caniatâd i ddechrau hyd at:

- **Gweithgaredd:** dyddiad cwblhau'r prosiect
- **Cyfalaf:** 20 mlynedd ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect
- **Digidol:** 20 mlynedd ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect
- **Caffaeliad:** Os yw eich prosiect yn cynnwys prynu eitem dreftadaeth, tir neu adeilad, bydd telerau'r grant yn para'n ddiderfyn. Os ydych yn dymuno cael gwared ar bethau rydych chi wedi eu prynu yn y dyfodol, mae'n rhaid i chi ofyn am ein caniatâd ac efallai byddwn yn hawlio'r grant cyfan neu ran ohono yn ôl.

Gofynion cyfreithiol a pholisïau

Perchnogaeth

Rydym yn disgwyl i chi fod yn berchen ar unrhyw eiddo (tir, adeiladau, eitemau treftadaeth neu eiddo deallusol) rydych yn gwario'r grant arno.

Tir ac adeiladau

Ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys gwaith ar dir ac adeiladau, mae'n rhaid eich bod yn berchen ar y rhyddfaint neu fod gennych brydles sy'n bodloni ein gofynion:

Ar gyfer grantiau o £10,000 hyd at £100,000:

- **Sefydliad dielw:** Mae'n rhaid i'ch prydles redeg am bum mlynedd ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect
- **Perchennog preifat:** Mae'n rhaid i'ch prydles redeg am o leiaf deng mlynedd ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect
- **Tir/adeiladau dan berchnogaeth trydydd parti:** Byddwn naill ai yn gofyn i'r perchennog gytuno i'n telerau ac amodau yn uniongyrchol gyda ni neu ofyn i chi ymrwymo i gytundeb â'r perchennog sy'n eich rhwymo'n gyfreithiol

Ar gyfer grantiau o £100,000 hyd at £250,000, mae'n rhaid i chi berchen ar y rhydd-ddaliad neu fod â phrydles sy'n cwrdd â'r gofynion canlynol:

- mae'n rhaid i'ch prydles redeg am 20 mlynedd ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect
- os trydydd parti sydd berchen ar y tir (a all gynnwys partner prosiect), byddwn naill ai yn gofyn iddo gytuno i'n telerau ac amodau yn uniongyrchol gyda ni neu ofyn i chi ymrwymo i gytundeb â'r perchennog sy'n eich rhwymo'n gyfreithiol

Mae'n rhaid i bob prydles gwrdd â'r gofynion canlynol:

- nid ydym yn derbyn prydles i â chymalau terfynu (sy'n rhoi'r hawl i un neu fwy o'r partion i'r brydles derfynu'r brydles mewn amgylchiadau penodol)
- nid ydym yn derbyn prydles i â fforffediad ar gymalau ansolfedd (sy'n rhoi'r hawl i'r landlord derfynu'r brydles os bydd y tenant yn dod yn fethdalwr)
- rhaid i chi fod â'r gallu i werthu eich prydles, is-osod y cyfan neu ran ohoni, neu ei morgeisio, ond, os byddwn yn rhoi grant i chi, mae'n rhaid i chi gael ein caniatâd i wneud unrhyw rai o'r rhain yn gyntaf.

Os yw eich prosiect yn ymwneud â phrynu tir neu adeiladau, rhaid i chi eu prynu â'r rhydd-ddaliad neu gyda phrydles sydd ag o leiaf 99 mlynedd yn weddill arni.

Eitemau treftadaeth

Yn achos prosiectau sy'n cynnwys prynu eitem dreftadaeth neu wneud gwaith cadwraeth ar eitem dreftadaeth (er enghraifft, trê'n stêm neu baentiad), mae'n rhaid i chi brynu neu fod yn berchen ar yr eitem yn llwyr.

Ni all unigolion preifat neu sefydliadau er elw ddefnyddio ein cyllid i gaffael eitemau treftadaeth.

Os ydych yn benthycu eitem(au) fel rhan o'r prosiect (er enghraifft, ar gyfer arddangosfa) ac rydych yn cael eich gofyn i gyfrannu at gostau'r cadwraeth, yna efallai byddwn yn derbyn y gost hon os yw'n ffurfio rhan fach o'ch prosiect.

Mae angen i berchnogion yr eitem(au) fod ynghlwm wrth eich cytundeb partneriaeth, neu ynghlwm wrth delerau safonol y grant, os oes grant yn cael ei ddyfarnu. Mae'n ofynnol i chi gynnwys hyn yn eich ffurflen ymholiad am brosiect, os ydych yn credu y bydd yn berthnasol i'ch prosiect.

Nid ydym yn gallu ariannu unigolion preifat neu sefydliadau er elw i brynu adeiladau, tir neu eitemau treftadaeth.

Os ydych yn cynllunio prosiect adeiladu cyfalaf gyda'r pwrpas o storio neu arddangos casgliad nad chi sydd berchen arno, byddwn yn gofyn i berchennog y casgliad fod ynghlwm wrth delerau safonol y grant (ac unrhyw amodau ychwanegol a nodwyd yn y llythyr hysbysu am grant) os oes grant yn cael ei ddyfarnu. Dylech gynnwys hyn yn eich ffurflen ymholiad am brosiect, os ydych yn credu y bydd yn berthnasol i'ch prosiect.

Allbynnau digidol

Mae gennym ofynion penodol, sydd wedi'u nodi yn ein telerau grant safonol, ar gyfer 'allbynnau digidol' a gynhyrchir fel rhan o unrhyw brosiect.

Defnyddiwn y term 'allbwn digidol' ar gyfer unrhyw beth yr ydych yn ei greu ar gyfer eich prosiect o fewn fformat digidol a gynllunnir i roi mynediad i dreftadaeth a/ neu i helpu pobl i ymgysylltu â, a dysgu am, dreftadaeth.

Er enghraifft, gallai hyn olygu delweddau digidol, ffeiliau sain neu ddata, gwefan â deunydd treftadaeth, ap, rhithrealiti, neu ffilm a wnaed gan ddefnyddio technoleg ddigidol.

Nid yw'r gofynion yn berthnasol i allbynnau digidol sydd heb gynnwys treftadaeth neu nad ydynt yn ymgysylltu pobl â threftadaeth, e.e. gwefan sy'n cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'ch sefydliad/prosiect neu restr o ddigwyddiadau yn unig.

Os ydych yn derbyn grant rhwng £10,000 a £100,000, mae'n rhaid i bob allbwn digidol fod:

- **'yn rhywbeth y gellir ei ddefnyddio'** (mae'r allbwn yn gweithio fel y'i bwriedid ac yn cael ei ddiweddarau) ac **'ar gael'** (mae'r allbwn ar gael i'r cyhoedd fel y'i bwriedid; mae holl ffeiliau digidol yn cael eu cadw'n ddiogel; gallwch roi mynediad i'r ffeiliau digidol ar alw) am bum mlynedd ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect
- yn rhad ac am ddim am ddefnydd anfasnachol am bum mlynedd o ddyddiad cwblhau'r prosiect
- yn drwyddedig i'w ddefnyddio gan eraill o dan drwydded 'Priodoliad Anfasnachol' (CC BY-NC) Creative Commons am bum mlynedd o ddyddiad cwblhau'r prosiect, oni bai ein bod wedi cytuno fel arall

Os yw'r ymgeisydd arweiniol yn berchenog preifaf ar dreftadaeth, bydd telerau'r grant yn para hyd at ddeng mlynedd o ddyddiad cwblhau'r prosiect.

Yn yr achosion hyn, felly, dylai pob allbwn digidol fod:

- 'yn rhywbeth y gellir ei ddefnyddio' ac 'ar gael' am ddeng mlynedd o ddyddiad cwblhau'r prosiect
- yn rhad ac am ddim am ddefnydd anfasnachol am ddeng mlynedd o ddyddiad cwblhau'r prosiect
- yn drwyddedig i'w ddefnyddio gan eraill o dan drwydded 'Priodoliad Anfasnachol' (CC BY-NC) Creative Commons am ddeng mlynedd o ddyddiad cwblhau'r prosiect, oni bai ein bod wedi cytuno fel arall

Os ydych yn derbyn grant yn uwch na £100,000, mae'n rhaid i bob allbwn digidol fod:

- 'yn rhywbeth y gellir ei ddefnyddio' (mae'r allbwn yn gweithio fel y'i bwriedid ac yn cael ei ddiweddarau) am bum mlynedd o ddyddiad cwblhau'r prosiect
- 'ar gael' am ba bynnag hyd y mae telerau'r grant yn para
- yn rhad ac am ddim am ddefnydd anfasnachol am ba bynnag hyd y mae telerau eich grant yn para

- yn drwyddedig i'w ddefnyddio gan eraill o dan drwydded 'Priodoliad Anfasnachol' (CC BY-NC) Creative Commons am ba bynnag hyd y mae telerau eich grant yn para, oni bai ein bod wedi cytuno fel arall

Rydym yn disgwyl:

- gwefannau i gwrrd ag o leiaf safon hygyrchedd A sengl W3C
- i chi ddefnyddio [technolegau ffynhonnell](#) [agored lle bo'n bosibl](#)
- i chi gyfrannu allbynnau digidol i [gasgliadau treftadaeth priodol](#)

Mae arweiniad ar gyfer prosiectau digidol i'w gweld ar ein [gwefan](#) [↗](#)

Caffael a swyddi staff

Mae'n rhaid i chi ddilyn ein canllawiau caffael. Fel trosolwg, ar gyfer costau am nwyddau, gwaith neu wasanaethau sydd â gwerth mwy na £10,000 (ac eithrio TAW), mae'n rhaid i chi gael o leiaf dri thendr/dyfyndbris cystadleuol. Ar gyfer nwyddau, gwaith a gwasanaethau sy'n werth mwy na £50,000 (ac eithrio TAW), rhaid i chi ddarparu prawf o weithdrefnau tendro cystadleuol.

Dylai eich prawf fod ar ffurf adroddiad ar y tendrau a gawsoch, ynghyd â'ch penderfyniad o ran pa un i'w dderbyn. Rhaid i chi roi rhesymau llawn os na fyddwch yn dewis y tendr isaf. Yn ddiabyddol ar natur eich prosiect, efallai bydd yn ofynnol i chi gydymffurfio â rheolau caffael Ewrop a Rheoliadau Caffael Cyhoeddus y DU 2015.

Os yw partner prosiect yn darparu nwyddau neu wasanaethau ac yn talu amdanynt nhw drwy'r grant, yna mae angen i chi ddweud wrthym pam eu bod nhw wedi cael eu dewis a pham nad oes proses tendr agored yn briodol. Byddwn yn ystyried ai hon yw'r ffordd orau i gynnal eich prosiect ac yn disgwyl i chi ddangos gwerth am arian a chwrdd ag unrhyw ofynion cyfreithiol priodol.

Nid yw partneriaid yn isgcontractwyr. Byddant yn ymgymryd â swydd weithredol yn y prosiect ac yn cyfrannu at y prosiect yn ei gyfarwydd. Byddant yn helpu i adrodd ar gynnydd, mynychu cyfarfodydd partneriaeth rheolaidd, a chefnogi'r gwaith o werthuso'r prosiect. Byddwn yn gofyn i weld eich cytundeb partneriaeth fel dogfen ategol gyda'ch cais.

Mae'n rhaid i chi hefyd hysbysebu'n agored pob swydd i staff ar y prosiect, gyda'r eithriadau canlynol:

- mae gennych aelod o staff sydd â chymwysterau addas ar eich cyflogres yr ydych yn ei symud i swydd ar y prosiect. (Bydd angen i chi ddarparu swydd-ddisgrifiad ar gyfer y swydd hon o hyd)
- rydych yn cynyddu oriau aelod o staff sydd â chymwysterau addas ar eich cyflogres er mwyn iddo allu gweithio ar y prosiect. Yn yr achos hwn, byddwn yn ariannu cost yr oriau ychwanegol a fydd yn cael eu treulio ar y prosiect a bydd angen i chi ddweud wrthym am ei rôl
- os ydych yn sefydliad gwirfoddol ac yn cynnwys cyfran o amser aelod o staff yn eich cyfrifiad ar gyfer adennill costau llawn

Rydym yn ymroddedig i sicrhau bod y sector treftadaeth yn gynhwysol ac yn gynaliadwy. Mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r gyfradd cyflog byw (a chyfraddau cyflog byw Llundain lle bo'n briodol) ar gyfer holl staff y prosiect. Dangoswch dystiolaeth o gyllidebu ar gyfer cyfraddau cyflog byw yng nghostau eich staff a chyllidebau.

Mae'n rhaid i ddulliau recriwtio ymgynghorwyr a chontractwyr fod yn deg ac yn agored a glynu at y ddeddfwriaeth gydraddoldeb berthnasol.

Os ydych yn ansicr o'ch rhwymedigaethau, rydym yn eich cynghori i gael cyngor proffesiynol neu gyfreithiol. Os ydych chi eisoes wedi caffael nwyddau, gwaith neu wasanaethau ar gyfer y prosiect sydd gwerth mwy na £10,000 (ac eithrio TAW), bydd angen i chi ddweud wrthym sut y gwnaethoch hyn. Nid ydym yn gallu talu eich grant os nad ydych wedi dilyn y weithdrefn gywir.

Rydym yn ymroddedig i sicrhau bod y sector treftadaeth yn gynhwysol ac yn gynaliadwy.

Os yw eich cais yn aflwyddiannus

Mae'r broses asesu yn gystadleuol ac ni allwn ariannu'r holl geisiadau da rydym yn eu derbyn. Os yw eich cais yn aflwyddiannus, efallai byddwn yn argymhell i chi wneud cais arall ond mae'n rhaid i chi siarad â ni am hyn cyn ailymgeisio.

Cymorth gwladwriaethol

Cymorth gwladwriaethol yw term y Gymuned Ewropeaidd sy'n disgrifio mathau o gymorth (fel arfer ariannol) gan gorff cyhoeddus a roddir i ymrwymadau ar sail ddewisol sydd â'r potensial i ystumio cystadleuaeth ac effeithio ar fasnach rhwng aelod-wladwriaethau o'r Undeb Ewropeaidd.

Mae rheolau cymorth gwladwriaethol yn atal cystadleuaeth amhriodol rhag digwydd pan mae gan sefydliadau fantais economaidd sylweddol trwy gael eu holl gyllid neu rai ohono wedi'i ddarparu oddi wrth adnoddau'r wladwriaeth er anfantais i sefydliadau eraill sydd ond yn gallu defnyddio eu cyllid preifat eu hunain.

Rydym yn gyllidwr cyhoeddus ac mae ein grantiau yn ddarostyngedig i reolau cymorth gwladwriaethol. Pe baem yn dyfarnu grant a ystyrir, wedi hynny, i fod yn torri rheolau cymorth gwladwriaethol, byddai'n ofynnol i ni adennill y cronfeydd hynny gan dderbynydd y grant.

Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw prosiectau sy'n cael eu cefnogi gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn rhai cymorth gwladwriaethol oherwydd:

- nad ydynt yn cael eu hystyried yn weithgaredd economaidd; a/neu
- eu bod yn cael eu hystyried yn annethol am mai eu prif fuddiolwr yw'r cyhoedd; a/neu
- na fyddent yn cael effaith fesuradwy ar fasnach fewnol yr UE

Ystyrir bod gan y prosiectau hyn statws "dim cymorth" oherwydd eu bod yn dod o dan yr Hysbysiad ar y Syniad o Gymorth Gwladwriaethol (NoSA).

Os yw eich cais yn aflwyddiannus, efallai y byddwn yn argymhell i chi wneud cais arall ond mae'n rhaid i chi siarad â ni am hyn cyn ailymgeisio.

Rydym yn ariannu gwaith i brynu tir a phrosiectau treftadaeth naturiol. Mae'r rhain fel arfer yn cael eu hystyried i fod â statws "dim cymorth" oherwydd mai eu hamcan sylfaenol yw cadwraeth a/neu adfer tirweddau, cynefinoedd a rhywogaethau er budd bioamrywiaeth.

Mewn rhai achosion lle mae prosiectau yn sylweddol fawr ac yn economaidd mewn natur, ac felly gallent ddenu her fasnachol, mae Erthygl 53 o Reoliad Eithriad Bloc Cyffredinol 2014 (EC) Rhif 651/2014 (GBER) yn caniatáu cymorth ar gyfer costau cyfalaf prosiect diwylliannol neu dreftadaeth o hyd at €100 miliwn a chostau gweithredu o hyd at €50 miliwn ar yr amod y dangosir bylchau cyllid addas ym mhob achos. Gall y prosiectau hyn gael eu cefnogi o dan eithriad bloc.

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw gwirio a oes angen cliriad o ran cymorth gwladwriaethol. Dylai ymgeiswyr geisio cyngor cyfreithiol annibynnol os nad ydynt yn siŵr a fydd angen cliriad ar brosiect.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â chymorth gwladwriaethol, ewch i: www.gov.uk/guidance/state-aid

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r adran cyllidebu ac adrodd ar werthuso isod yn berthnasol ar gyfer pob prosiect. Dylech hefyd ddarllen yr adrannau canlynol os ydynt yn berthnasol i'ch prosiect:

[Prynu tir ac adeiladau](#)

[Prynu eitemau treftadaeth a chasgliadau](#)

[Prosiectau yn cynnwys tir, cynefinoedd a rhywogaethau](#)

[Gofynion perchenogaeth trydydd parti, gan gynnwys grantiau cymunedol](#)

Cyllidebu ac adrodd ar gyfer y gwerthusiad

Rydym yn argymhell gadael cyllideb ar gyfer gwerthuso o rhwng 2% a 7% o gyfanswm costau eich prosiect. Ni ddylai eich cyllideb ar gyfer gwerthuso fod yn llai na 2%. Er enghraifft, os oes prosiect yn gwneud cais am gyllid o £190,000, byddem yn disgwyl i isafswm o £3,800 (2%) gael ei neilltuo i'r gwerthusiad. Os yw'ch cyllideb werthuso yn is, bydd angen i chi ddweud y rheswm am hyn wrthym yn y disgrifiad ar gyfer cost hon y prosiect.

Gofynnir i chi ysgrifennu gwerthusiad o'ch prosiect a'i atodi i'ch adroddiad cwblhau terfynol. Ein nod yw ariannu prosiectau sy'n creu newid cadarnhaol a pharhaol i bobl a chymunedau.

Ein nod yw ariannu prosiectau sy'n creu newid cadarnhaol a pharhaol i bobl a chymunedau.

Mae gofyn i'n prosiectau gyflwyno adroddiadau gwerthuso yn ein caniatáu i ddangos y gwahaniaeth hwnnw a chael gwybod a yw prosiect wedi gwario'r grant yn briodol ac wedi cyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Rydym yn adrodd ar y cyflawniadau hyn drwy werthuso rhaglenni'n barhaus, sy'n ddibynnol ar wybodaeth oddi wrth hunanwerthusiadau ar lefel prosiectau.

Byddwn hefyd yn anfon holiadur gwerthuso o fewn blwyddyn o gwblhau eich prosiect. Bydd yn gofyn am wybodaeth ar y nifer o weithgareddau a wnaed, y nifer o ymwelwyr a gafwyd (os yn berthnasol), faint o hyfforddiant a gwirfoddoli a wnaed yn eich prosiect, ac unrhyw staff ychwanegol rydych wedi'u cyflogi. Ar gyfer pob un o'r 'allbynnau' hyn o'ch prosiect, bydd gennym ddiddordeb yn y mathau o bobl a gafodd fudd yn ogystal â'r niferoedd cyffredinol.

Amlinellir isod y wybodaeth feintiol yr ydym yn disgwyl i chi ei chasglu ar gyfer eich

holiadur gwerthuso. Ar gyfer ymwelwyr, gwirfoddolwyr, hyfforddeion a staff, rydym hefyd yn gofyn am fanylion demograffig yn ôl rhyw, oedran, ethnigrwydd, tueddfryd rhywiol, anabledd a dosbarth cymdeithasol.

Ar wahân, nid yw'r niferoedd yn dweud y stori lawn ynglŷn â chynnwys eich prosiect, a bydd angen i'ch adroddiad gwerthuso ddweud wrthym am ansawdd eich prosiect yn ogystal.

1. Gweithgareddau

Byddwn am i chi ddweud wrthym faint o weithgareddau a gynhaliwyd gan ddefnyddio'ch grant. Dyma'r gweithgareddau yr ydym yn eu rhestru:

- **Diwrnodau agored:** diwrnodau lle'r ydych yn agor safle treftadaeth, casgliad neu nodwedd i'r cyhoedd, na ellir ymweld ag ef/hi yn arferol. Gellir hefyd cynnwys diwrnodau pan nad ydych yn codi tâl ar gyfer atyniadau sydd yn codi tâl mynediad yn arferol.
- **Gwyliau:** rhaglenni digwyddiadau neu weithgareddau ar gyfer y cyhoedd, sy'n para diwrnod neu fwy, â thema neu ffocws sydd wedi'i ddiffinio'n glir.

- **Arddangosiadau ac arddangosfeydd dros dro:** arddangosiadau neu arddangosfeydd nad ydynt yn nodwedd barhaol ar eich safle ac sy'n para am lai na 12 mis.
- **Teithiau tywys neu deithiau cerdded:** gellir tywys y rhain gan naill ai'ch staff neu gan bobl y tu allan i'ch sefydliad, ond mae'n rhaid iddynt gael eu cynnal ar eich safle treftadaeth neu nodwedd.
- **Ymweliadau gan ysgolion a cholegau:** gellir cynnwys ymweliadau gan ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a lefelau addysg uwch ymysg y rhain.
- **Sesiynau allgymorth mewn ysgolion a cholegau:** ymweliadau a wneir gan eich staff neu'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda chi ar y prosiect.
- **Gweithgareddau eraill ar y safle:** gweithgareddau sy'n cael eu cynnal ar eich safle nad ydych yn credu eu bod yn cael eu cynnwys o dan benawdau eraill.
- **Gweithgareddau allgymorth eraill neu weithgareddau eraill y cynhelir oddi ar y safle:** gweithgareddau sydd wedi cael eu cynnal oddi ar y safle y teimlwch nad ydych wedi gallu dweud wrthym amdanynt.

2. Ymweliadau

Data ynglŷn â nifer y bobl a wnaeth ymweld â'ch atyniad y flwyddyn cyn dechreuodd eich prosiect a'r flwyddyn ar ôl iddo gael ei gwblhau. Os yw'r atyniad neu gyfleuster yr ariennir gennym ni yn rhan o atyniad mwy (er enghraifft, os ydym yn ariannu oriel o fewn amgueddfa fwy), rydym ond eisiau cael y niferoedd ymwelwyr gennych ar gyfer y rhan o'r atyniad neu gyfleuster yr ydym yn ei hariannu.

3. Gwirfoddolwyr

Nifer y gwirfoddolwyr sy'n gysylltiedig â'r prosiect a ariennir a nifer yr oriau gwirfoddol y gwnaethant eu cyfrannu.

4. Hyfforddiant

Nifer y bobl a gafodd eu hyfforddi drwy'r prosiect, o dan gyfres o benawdau sgiliau sy'n cwmpasu cadwraeth, ymgysylltu â chynulleidfaoedd a rheoli.

Mae hyfforddiant yn cynnwys unrhyw raglen strwythuredig o hyfforddi mewn swydd, rhannu sgiliau, dysgu yn y gwaith a phrofiad gwaith. Gofynnwn i chi wahaniaethu rhwng hyfforddiant ar gyfer eich staff a hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr.

5. Staff newydd

Nifer y swyddi staff newydd a grëwyd i gynnal eich prosiect, a nifer y rhain sy'n cael eu cynnal o hyd ar ôl diwedd y prosiect.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â gwerthuso, darllenwch ein canllaw ar ein [gwefan](#).

Prynu tir ac adeiladau

Gallwn ariannu prosiectau sy'n ymwneud â phrynu tir a/neu adeiladau sy'n bwysig i'n treftadaeth ac sy'n cael eu gwerthu ar bris y farchnad neu'n islaw'r pris hwn. Mae'n rhaid i'r prif resymau dros brynu ymwneud â mantais wrth reoli'r dreftadaeth dros y tymor hir a mynediad i'r cyhoedd.

Os ydych eisoes yn rheoli'r tir a/neu'r adeiladau yr ydych yn dymuno eu prynu, bydd angen i chi ddangos i ni pa fuddiannau ychwanegol a fydd yn cael eu darparu trwy eu prynu.

Bydd angen i chi ddangos i ni fod pob opsiwn wedi'i archwilio ar gyfer cael hyd i gytundeb rheoli priodol â pherchennog y rhydd-ddaliad cyn ceisio am grant i'w brynu.

Gallwn eich helpu i brynu tir a/neu adeiladau os gallwch ddangos yn eich ffurflen gais y bydd:

- unrhyw risg i'w cadwraeth yn cael ei lleihau am eich bod yn eu prynu;
- y pris yn adlewyrchiad teg o'r cyflwr a'r gwerth;
- prynu'r eiddo yn cyfrannu at fwy o bobl yn ymgysylltu â'r dreftadaeth;
- gennych gynlluniau digonol ar gyfer rheoli a chynnal a chadw dros gyfnod o ddeng mlynedd o leiaf ar ôl cwblhau'r prosiect;
- modd i chi ddangos eu harwyddocâd ar gyfer treftadaeth leol, ranbarthol neu genedlaethol.

Ni fyddwn yn cefnogi prynu eiddo y teimlwn ei fod yn cael ei werthu ar bris sy'n uwch na'r gwerth marchnadol. Os byddwn yn rhoi grant i chi, efallai y bydd angen arwystl ar y tir a/neu'r adeiladau. Gallwn ariannu pob math o gostau prynu megis ffioedd asiant, ffioedd yr ystafell werthu a threthi. Sicrhewch fod y rhain wedi'u hystyried yn eich tabl costau.

Os yw eich prosiect yn cynnwys **prynu eitem dreftadaeth**, tir neu adeilad, bydd telerau'r grant yn para'n ddiderfyn. Os ydych yn dymuno cael gwared â'r hyn yr ydych wedi ei brynu yn y dyfodol, gallwch ofyn am ein caniatâd. Efallai y byddwn yn hawlio ein grant yn ôl.

Y wybodaeth sydd ei hangen arnom ynglŷn â'r pryniant

- cynllun lleoliad i raddfa, sy'n nodi'n glir maint y tir neu'r adeilad bydd yn cael ei brynu ac unrhyw fynediad perthnasol i'r tir a'r adeilad.
- un prisiad annibynnol. Dylai hwn gynnwys esboniad manwl ynglŷn â sut y cafwyd y gwerth marchnadol. Rydym yn croesawu prisiadau gan y Prisiwr Dosbarth. Efallai y byddwn hefyd yn trefnu ein prisiad ein hunain. Yn arferol, byddwn yn barod i gefnogi prynu am bris sydd hyd at 10% yn uwch nag unrhyw amrediad mewn prisiad a dderbynnir.
- tystiolaeth yn dangos mai'r perchnogion presennol yw'r perchnogion (bod ganddyn nhw deitl cyfreithiol) a bod ganddynt yr hawl i werthu'r tir a/ neu adeilad a throsglwyddo'r teitl i'r perchennog newydd; a thystiolaeth o unrhyw gyfamodau cyfreithiol, neu hawliau (megis pysgota, saethu, mwynol, draeniad), neu denantiaethau hirdymor neu fyrdymor, neu hawliau tramwy neu fynediad, neu unrhyw fuddiannau eraill sy'n gysylltiedig â'r tir neu adeilad.

Prynu eitemau treftadaeth a chasgliadau

Gallwn ariannu prosiectau sy'n ymwneud â phrynu eitemau treftadaeth neu gasgliadau sy'n bwysig i'n treftadaeth ac sydd yn cyfrannu at gyflawni ein canlyniadau.

Byddwn ond yn helpu i brynu eitemau neu gasgliadau os gallwch ddangos yn eich ffurflen gais y bydd:

- risgiau i'w dyfodol hirdymor yn cael eu lleihau os ydych yn eu prynu
- y pris yn adlewyrchiad teg o'u cyflwr a'u gwerth
- y pryniant yn unol â'ch polisi casglu
- yr eitemau yn hygyrch i'r cyhoedd unwaith y maent wedi'u prynu
- gennych gynlluniau digonol i ofalu amdanynt a'u cynnal a'u cadw

Byddwn yn helpu i brynu gwaith celf, archifau, gwrthrychau a chasgliadau eraill sy'n bwysig i'r dreftadaeth ac a grëwyd dros ddeng mlynedd yn ôl. Byddwn hefyd yn rhoi arian i brynu eitemau mwy diweddar o bwys treftadaeth, ond dim ond os ydynt yn rhan o gasgliad mwy sy'n fwy na deng mlwydd oed.

Os yw eich prosiect yn cynnwys prynu eitem dreftadaeth, tir neu adeilad, bydd telerau'r grant yn para'n ddiderfyn. Efallai

y bydd angen i ni gymryd arwystl ar yr eitem(au). Os ydych yn dymuno cael gwared â'r hyn yr ydych wedi ei brynu yn y dyfodol, gallwch ofyn am ein caniatâd, ac efallai y byddwn yn hawlio ein grant yn ôl. Os ydych yn benthyca'r eitem(au) eisoes ar gyfer eich sefydliad, bydd angen i chi ddangos i ni pa fuddiannau ychwanegol y cyflenwir trwy ei phrynu/eu prynu.

Mae'n annhebygol y byddai prynu eitem dreftadaeth gan un casgliad a ariennir yn gyhoeddus oddi wrth un arall yn darparu budd digonol i'r cyhoedd er mwyn i ni ystyried ariannu'r pryniant.

Ni fyddwn yn cefnogi pryniadau a ystyrir gennym i fod yn uwch na'r gwerth marchnadol.

Ni fyddwn yn rhoi blaenoriaeth i bryniant am ei fod yn destun ataliad allforio yn unig. Mae ataliad allforio yn rhoi cyfle i sefydliadau godi'r arian sydd ei angen i brynu eitem neu gasgliad y bwriedir ei allforio. Mae'r ataliad allforio yn oedi'r drwydded allforio am gyfnod penodol er mwyn galluogi cynnig o fewn y DU.

Os ydych yn bwriadu gwneud cais i ni, dylech gysylltu â'ch swyddfa leol cyn gynted â phosibl ac o fewn y cyfnod gohirio cyntaf.

Os oes angen penderfyniad arnoch ar frys, mae'n rhaid i chi gysylltu â'ch swyddfa leol i drafod hyn cyn eich bod yn gwneud cais. Gallwn ond ystyried cynnig penderfyniadau cyflym ar gyfer prynu eitemau treftadaeth neu gasgliadau os yw'r dyddiad cau yn golygu nad ydym yn gallu asesu eich cais o fewn ein hamserlen arferol.

Bydd ein staff yn trafod goblygiadau ein gweithdrefn gyflym ar gyfer eich cais gyda chi. Os oes gennych ychydig o amser i brynu'r eitem(au), gofynnwn i chi ddarparu manylion ynglŷn â sut bydd y gwrthrych hwn yn cael ei integreiddio yn eich gweithgareddau dysgu a rhaglenni cyhoeddus sydd eisoes yn bodoli.

Ni fyddwn yn gofyn i chi greu cynllun gweithgaredd ar wahân ond byddwn yn disgwyl i weithgareddau a rhaglenni fod yn briodol ar gyfer y gwrthrych yr ydych yn ei brynu.

Os yw eich prosiect yn cynnwys prynu eitem dreftadaeth, tir neu adeilad, bydd telerau'r grant yn para'n ddiderfyn.

Costau

Mae'r costau cymwys sy'n gysylltiedig â phryniant yn cynnwys:

- y pris prynu ei hun
- ffioedd a godir gan eich sefydliad fel y prynwr, gan gynnwys prisiadau; ffioedd asiant; a phremiwm y prynwr ar gyfer pryniannau mewn arwerthiant
- TAW na ellir ei hawlio yn ôl

Mae'r costau anghymwys yn cynnwys:

- ffioedd y gwerthwr (e.e. ffioedd cyfreithiol a ffioedd yr asiant).

Dylech hefyd gynnwys y costau ar gyfer yr holl weithgareddau eraill y byddwch yn eu gwneud ar gyfer eich prosiect unwaith yr ydych wedi prynu'r eitem(au). Mae'n rhaid i gostau eich gweithgareddau fod yn gymesur i gost yr eitem(au).

Y wybodaeth sydd ei hangen arnom ynglŷn â'r pryniant

Bydd angen i chi ddarparu:

- gwybodaeth am hanes ac arwyddocâd yr eitem(au)
- datganiad ynglŷn â pham mai chi yw'r sefydliad cywir i fod yn berchen ar yr eitem(au). Dylid cefnogi hwn gan yr hyn yr ydych yn ei ddweud yn eich polisiau, megis eich polisi caffael neu reoli casgliadau
- tystiolaeth i ddangos mai chi fydd perchennog llawn yr eitem(au) neu fod gennych achos da ar gyfer perchnogaeth ar y cyd sydd wedi'i chynllunio'n dda
- tystiolaeth ddogfenol o darddiad yr eitem(au). Mae enghreifftiau o dystiolaeth yn cynnwys dogfennau gwerthu, dogfennau cyfreithiol, dogfennau allforio, datganiad ysgrifenedig gan y perchennog presennol, hanes yr eitem(au)
- tystiolaeth mai'r perchnogion presennol yw'r perchnogion (bod ganddynt deitl cyfreithiol) a bod ganddynt yr hawl i werthu'r eitem(au) ac i drosglwyddo'r teitl i'r perchennog newydd

- prisiad annibynnol ar sail marchnad agored ar gyfer yr eitem(au) yr ydych yn dymuno ei phrynu/eu prynu; dylai hwn gynnwys ymresymiad y prisiwr i gefnogi'r prisiad, nid datganiad o'r gwerth yn unig; nid oes angen i chi gomisiynu prisiad ar gyfer eitem (neu eitemau) sy'n destun ataliad allforio neu sy'n rhan o'r broses priso trysor
- tystiolaeth i ddangos eich bod wedi dilyn canllawiau cyfredol ynghylch hynafiaethau cludadwy, masnach anghyfreithlon, ac eitemau a chasgliadau a allent fod yn sensitif. Dylech ddarparu datganiad sy'n amlinellu'ch ymchwil i'r cyfreithiau a chanllawiau priodol ynghylch caffael yn foeseogol
- disgrifiad ynghylch sut y byddwch yn rheoli'r eitem(au) ac yn ei chadw/eu cadw'n ddiogel, pan fyddwch yn ei phrynu/eu prynu ac yn y dyfodol
- adroddiad gwarchodwr sy'n datgan a oes gan yr eitem(au) anghenion cadwraeth ac, os felly, sut byddwch yn bodloni'r anghenion hynny. Dylai'r adroddiad gynnwys tystiolaeth fod gan eich sefydliad yr amodau amgylcheddol cywir i gartrefu'r eitem sy'n cael ei phrynu

Prosiectau yn cynnwys tir, cynefinoedd a rhywogaethau

Prosiectau cofnodi biolegol

Dylai unrhyw arsylwadau ar rywogaethau gydymffurfio â'r safonau ar gyfer ansawdd data a hygyrchedd fel y nodir gan y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol (NBN) yn [Atlas yr NBN](#). Mae'n rhaid sicrhau bod yr arsylwadau hyn ar gael i'r cyhoedd ar drwydded agored ar y cydraniad a gymerwyd, yn amodol ar gyfyngiadau rhywogaethau sensitif.

Mae nifer o ffyrdd i gyflawni hyn. Efallai y byddai'n well gan bartneriaid data Atlas yr NBN cyflenwi setiau data yn uniongyrchol i Atlas yr NBN. Mae opsiynau eraill yn cynnwys drwy'r teclyn cofnodi ar-lein [iRecord](#) neu y gellir eu rhannu gyda'ch [canolfan cofnodi amgylcheddol leol neu ranbarthol](#) ar gyfer trosglwyddo ymlaen i Atlas yr NBN. Sicrhewch os gwneir cyflwyniad i [Atlas yr NBN](#) trwy drydydd parti ei fod yn ymwybodol o'r gofynion i gyflwyno'r data hwn ar y cydraniad a gymerwyd ar drwydded agored.

Os nad ydych yn sicr ynglŷn â'r ffordd orau ymlaen, cysylltwch â'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol yn uniongyrchol i drafod y llwybr cyflenwi data mwyaf priodol. Mae hefyd yn ofynnol eich bod yn bodloni ein gofynion digidol.

Y wybodaeth sydd ei hangen arnom am gymorth gwladwriaethol amaethyddol

Bydd angen i chi ddarparu cliriad cymorth gwladwriaethol gan DEFRA os yw'n debyg y bydd rheolau cymorth gwladwriaethol ar gyfer amaethyddiaeth yn berthnasol.

Gweithio ar dir preifat

Mae nifer o gynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth i'w gweld ar dir y mae unigolion preifat neu sefydliadau er elw yn berchen arno.

Rydym yn derbyn ceisiadau ar gyfer prosiectau tirwedd a natur sydd ar dir cyhoeddus a thir a berchnogir yn breifat, ar yr amod fod y budd i'r cyhoedd yn fwy na'r elw preifat ar gyfer y tîrfeddiannwr (tîrfeddiannwr) unigol lle mae'r rhain yn unigolion preifat neu'n sefydliadau er elw.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r prif ymgeisydd ar gyfer y prosiect fod yn sefydliad dielw neu'n gorff cyhoeddus os bydd eich cais am grant yn £100,000 neu'n fwy.

Er mwyn cynnwys tir preifat, mae'n rhaid i'ch prosiect fodloni'r pedwar maen prawf isod:

- bod â rhan sylweddol o gynefin blaenoriaethol o ansawdd da neu gynnal poblogaeth sylweddol o rywogaethau blaenoriaethol y gellir ymestyn o'u plith;
- gwella a/neu ehangu maint ac ansawdd y cynefin, gan helpu i fodloni targedau cynefinoedd a rhywogaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU;
- cyfrannu at reoli'r ardal mewn modd cynaliadwy dros y tymor hir; a
- dangos dull strategol o warchod cynefin neu rywogaeth flaenoriaethol.

Bydd angen i chi ddarparu cliriad cymorth gwladwriaethol gan DEFRA os yw'n debyg y bydd rheolau cymorth gwladwriaethol ar gyfer amaethyddiaeth yn berthnasol.

Hyd yn oed wrth weithio ar dir preifat, byddwn yn disgwyl bod rhywfaint o fynediad cyhoeddus yn cael ei ddarparu. Fodd bynnag, rydym hefyd yn derbyn egwyddor lefelau parthedig ar gyfer mynediad corfforol o fewn ardal eich prosiect a'r ffaith na fydd mynediad corfforol bob amser yn briodol neu'n ddymunol am resymau cadwraeth cynefin.

Er hynny, dylai fod mynediad cyhoeddus eisoes i'r tir yr ydych yn berchen arno, a gallai fod gennych hefyd rywfaint o seilwaith, fel llwybrau neu guddfannau, a all helpu i ehangu mynediad i'r cyhoedd.

Gofynion perchennogaeth trydydd partïon

1. Ar gyfer prosiectau tirwedd a natur

Lle perchnogir ar y tir (sydd efallai'n cynnwys gwahanol blotiau o dir ar draws ardal eang) sy'n destun arian grant gan drydydd parti neu nifer o drydydd partïon (gan gynnwys perchnogion preifat), dylid rhoi cytundebau cyfreithiol ar waith rhwng pob tîrfeddiannwr a derbynnydd y grant.

Hyd yn oed wrth weithio ar dir preifat, byddwn yn disgwyl bod rhywfaint o fynediad cyhoeddus yn cael ei ddarparu.

Nid oes gennym ffurf ragnodedig o gytundeb ond mae gennym ofynion penodol y dylai'u cynnwys mewn unrhyw gytundebau â thîrfeddiannwr trydydd parti. Ar y man lleiaf, dylai cytundebau â thîrfeddiannwr gynnwys y canlynol:

Manylion y partïon:

1. Cadarnhad o sut mae'r tir yn cael ei gadw (rhydd-ddaliadol neu lesddaliadol)
2. Disgrifiad o'r eiddo (gan gynnwys cynlluniau)
3. Cyfamodau ar ran perchennog y tir i gynnal y tir a darparu mynediad i'r cyhoedd yn unol â thelerau'r grant (os yn berthnasol)
4. Darpariaeth y dylai unrhyw drosglwyddiad fod yn amodol ar y cytundeb trydydd parti
5. Bydd y cytundeb yn para o ddechrau'r gwaith ar dir y trydydd parti hyd at ddeng mlynedd yn dilyn cwblhau'r prosiect

Bydd angen i chi ddarparu copiau i ni o'r cytundebau â thirfeddianwyr er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion hyn. Bydd angen cwblhau'r cytundebau â thirfeddianwyr a'u rhoi ar waith cyn y bydd unrhyw arian grant yn cael ei ryddhau ar gyfer gwaith ar bob llain o dir a berchnogir gan drydydd parti.

2. Ar gyfer gwaith cyfalaf i dreftadaeth adeiledig: (er enghraifft, adeiladau hanesyddol, gerddi addurniadol)

Os yw'ch prosiect yn cynnwys gwaith sylweddol i adeilad treftadaeth sy'n eiddo i drydydd parti, byddwn fel arfer yn disgwyl i'r perchennog ddod yn dderbynydd grant ar y cyd neu roi prydles i chi sy'n bodloni ein gofynion. Mewn rhai amgylchiadau, yn hytrach na gwneud y perchennog yn dderbynydd grant ar y cyd, efallai y byddwn yn gofyn iddo lofnodi llythyr ategol yn cytuno i gydymffurfio â thelerau'r grant i'r graddau y maent yn ymwneud â materion sydd o dan ei reolaeth.

3. Grantiau cymunedol

Efallai y byddwch yn dymuno gwneud taliadau i berchnogion trydydd parti (gan gynnwys perchnogion preifat) am weithgareddau a gwaith cyfalaf sy'n cyfrannu at gyflawni canlyniadau ar gyfer treftadaeth, pobl neu gymunedau (rydym yn enwi'r rhain yn grantiau cymunedol). Os chi yw'r prif ymgeisydd, chi sydd yn gyfrifol am sicrhau bod canlyniadau penodol y prosiect yn cael eu cyflawni gan dirfeddianwyr trydydd parti (gan gynnwys perchnogion preifat) ac y cydymffurfir â thelerau'r grant, gan gynnwys ad-dalu'r grant os bydd angen.


Dylai hyn gael ei ffurfioli drwy gytundebau trydydd parti sy'n diffinio'r canlyniadau i'w cyflenwi ar dir y trydydd parti ac sy'n sicrhau'r gwaith o reoli a chynnal a chadw gwaith cyfalaf o ddechrau'r gwaith ar y prosiect nes deng mlynedd ar ôl cwblhau'r prosiect. Dylai hyn fod yn gytundeb cyfreithiol rhyngoch chi a derbynydd y grant cymunedol.

Er mwyn gweld enghreifftiau o'r mathau o delerau ac amodau y byddech efallai yn dymuno eu cynnwys yn eich cytundebau contractiol, ewch i'n canllaw ar grantiau cymunedol ar ein gwefan.

Costau cyfreithiol

Mae modd i chi gynnwys y costau ar gyfer addasu a sefydlu unrhyw gytundebau trydydd parti, gan gynnwys cost cael cyngor cyfreithiol, fel rhan o gostau datblygu eich cais.

Beth nesaf?

Defnyddiwch ein rhestr wirio ddefnyddiol ar ddechrau'r canllawiau hyn i sicrhau eich bod yn barod i ymgeisio. Gallwch wedyn [ymgeisio ar-lein](#) .

Cadwch mewn cysylltiad

Twitter

@heritagelottery / @HLFCymru

Facebook

@heritagelotteryfund

Instagram

@heritagelotteryfund

Cysylltwch â ni

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am gysylltu â ni ar ein [gwefan](#). 

Os hoffech wybod mwy am ein proses gwyno, ewch i'n [gwefan](#). 